# Gweithredu a Gweddïo gydol y Grawys

5

**Dydd Gwener, Mawrth 5[ed]**
Gweithred: Ffoniwch rywun sy'n byw ar ei ben ei hun neu ar ei phen ei hun heddiw.

Gweddi: Gweddïwch dros y tîm o bobl ar hyd a lled Cymru sy'n brechu pobl ar hyn o bryd.

6

**Dydd Sadwrn, Mawrth 6[ed]**
Gweithred: Gwnewch adduned i roi rywbeth yn y banc bwyd pan fyddwch yn siopa nesa.

Gweddi: Gweddïwch dros bawb sy'n colli gweld ffrindie dros y penwythnos.

7

**Dydd Sul, Mawrth 7[fed]**
Gweithred: Darllenwch Bennod 21 o Efengyl Mathew i baratoi ar gyfer yr wythnos fawr.

Gweddi: Gweddïwch dros bawb fydd yn arwain oedfa heddiw, boed mewn capel neu dros y we.

8

**Dydd Llun, Mawrth 8[fed]**
Gweithred: Postiwch gerdyn gyda gair o anogaeth i rywun sy wedi bod yn sâl yn ddiweddar.

Gweddi: Gweddïwch dros holl blant Cymru ar ddechrau wythnos ysgol newydd.

9

**Dydd Mawrth, Mawrth 9[fed]**
Gweithred: Rhowch far o siocled i rywun sy'n dod i ddrws eich tŷ, fel postmon neu ddyn llefrith.

Gweddi: Gweddïwch dros Senedd Cymru a phawb sy'n gweinyddu yng nghyfnod Covid-19.

10

**Dydd Mercher, Mawrth 10[fed]**
Gweithred: Os byddwch yn mynd am dro, beth am fynd â bag gwag efo chi i hel sbwriel ar eich taith.

Gweddi: Gweddïwch dros bawb sy'n gweithio mewn ysbytai a meddygfeydd yn y cyfnod anodd yma.

11

**Dydd Iau, Mawrth 11[eg]**
Gweithred: Beth am wneud cyfraniad i elusen heddiw? Mae modd gwneud hyn yn hawdd ar lein.

Gweddi: Gweddïwch dros y rhai hynny mewn cartrefi gofal nad ydynt yn medru gweld eu teuluoedd ar hyn o bryd.



# Adnoddau ar gyfer y Pasg

Unwaith eto, ceir adran helaeth ar wefan cristnogaeth.cymru lle ceir gwybodaeth am yr amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i eglwysi: www.cristnogaeth.cymru/pasg/

Mae adnoddau amrywiol, fel gwasanaethau a gweddïau, ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim, yn ogystal â gwybodaeth am adnoddau y gellir eu rhannu ymhlith plant ac oedolion.

### Adnoddau Cenhadol y Pasg – Haleliwia! Cododd Crist yn fyw

Ar gyfer y Pasg mae Cyngor yr Ysgolion Sul wedi paratoi cyfres o adnoddau a fydd yn galluogi eglwysi i gyflwyno neges a llawenydd y Pasg o fewn ein cymunedau mewn ffordd drawiadol ac effeithiol.

Yn ganolbwynt i'r cyfan mae cylchgrawn lliwgar, 16 tudalen, sy'n cynnwys darlleniadau Beiblaidd, erthygl yn sôn am 'Pam cofio marwolaeth Iesu?' gan Arfon Jones, posau, croesair, rysáit cacen Feiblaidd, gweddïau, tudalen i'r plant a nifer o erthyglau diddorol. Mae modd prynu copïau o'r cylchgrawn am 99c yr un, neu becynnau o 100 copi am £50 (50c yr un). Yn ogystal hefyd mae baner liwgar ar gyfer ei harddangos tu allan i'ch capel (2 fetr wrth 0.5 metr) ar gael am £25 yr un, neu faner tu mewn (roller banner) am £50 yr un. Mae cerdyn Pasg hefyd ar gael yn yr un cynllun i'w ddefnyddio i'w anfon ar ran yr eglwys.

Cliciwch yma i ddarllen mwy:
https://www.ysgolsul.com/wp-content/uploads/2019/02/ffurflen-archebu-adnoddau-pasg.pdf

### Comics Beiblaidd ar gyfer y Pasg


Mae nifer o gomics Beiblaidd ar gyfer y Pasg ar gael i'w cyflwyno i blant. Maen nhw'n ddelfrydol ar gyfer plant oed cynradd, ac ar gael am y pris arbennig o 60c yr un mewn pecynnau o 10, neu 99c yr un. Gellir hefyd archebu pecynnau mawr o 50 am £25 neu 100 am £40. Gellir trefnu i'w cludo i ganolfannau arbennig, neu os bydd angen eu postio, bydd yn rhaid codi cludiant ychwanegol.


Mae *Seren Jerwsalem* yn addas ar gyfer plant 6 i 11 oed. Mae'r comic hwn yn cynnwys stori'r Pasg ar ffurf comic, tudalennau sy'n cynnwys gwaith crefft, posau amrywiol a gweithgareddau, ynghyd â stori'r Pasg.

Cliciwch yma i archebu:
https://www.ysgolsul.com/wp-content/uploads/2015/01/ffurflen-archebu-adnoddau-pasg.pdf


### Llyfr Lliwio y Pasg Cyntaf

Mae llyfr lliwio newydd ar gael sy'n cyflwyno stori'r Pasg ynghyd â 12 llun i'w lliwio. Anrheg delfrydol i blant 5–11 oed. Pris arferol £1.99, ond telerau arbennig ar gael drwy gysylltu â Chyngor yr Ysgolion Sul.















**Newyddion lleol o'r eglwysi**

Rydym yn awyddus iawn i gynnwys newyddion o'r eglwysi lleol: digwyddiadau, symudiadau, teyrngedau byr, llongyfarchiadau a dymuniadau gorau. Gyrrwch eich newyddion at y golygydd newyddion eglwysi, Aled Davies at aled@cennad.cymru